



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

---

**OFFERYNNAU STATUDOL**

---

---

**STATUTORY INSTRUMENTS**

---

**2005 Rhif 1819 (Cy.147)**

**2005 No. 1819 (W.147)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**SOCIAL CARE,  
WALES**

**PLANT A PHOBL IFANC,  
CYMRU**

**CHILDREN AND YOUNG  
PERSONS, WALES**

**Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n  
Annibynnol (Mabwysiadu)  
(Cymru) 2005**

**The Independent Review of  
Determinations (Adoption) (Wales)  
Regulations 2005**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r rheoliadau hyn yn sefydlu panelau adolygu annibynnol. Adolygu'r dyfarniadau canlynol a wnaed gan banelau asiantaethau mabwysiadu yw swyddogaeth y panelau: a) penderfyniad i beidio â chymeradwyo ceiswyr fel rhai sy'n addas i fod yn rhieni mabwysiadol i blant mewn perthynas â mabwysiadu o fewn ffiniau gwlad a b) penderfyniad nad yw darpar fabwysiadwr bellach yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol.

These regulations establish independent review panels whose function is to review the following determinations made by adoption agency panels: a) a decision not to approve applicants as suitable to become adoptive parents of children in relation to domestic adoption and b) a decision that a prospective adopter is no longer suitable to be an adoptive parent.

Ni all y panel adolygu wyrdroi dyfarniad asiantaeth fabwysiadu. Gall adolygu'r wybodaeth a fu gerbron yr asiantaeth fabwysiadu a gofyn am fwy o wybodaeth. Yna gall wneud argymhelliad i'r panel asiantaeth fabwysiadu ynghylch pa mor addas yw'r darpar fabwysiadwyr. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ystyried argymhelliad y panel adolygu pan fydd yn gwneud ei phenderfyniad terfynol ynghylch pa mor addas yw'r darpar fabwysiadwyr.

The review panel cannot overturn a determination of an adoption agency. It can review the information before the adoption agency panel and request further information. It can then make a recommendation to the adoption agency panel as to the suitability of the prospective adopters. The adoption agency must take into account the review panel's recommendation when making its final decision as to the prospective adopters' suitability.

**2005 Rhif 1819 (Cy.147)**

**2005 No. 1819 (W.147)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**SOCIAL CARE,  
WALES**

**PLANT A PHOBL IFANC,  
CYMRU**

**CHILDREN AND YOUNG  
PERSONS, WALES**

Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n  
Annibynnol (Mabwysiadu)  
(Cymru) 2005

The Independent Review of  
Determinations (Adoption) (Wales)  
Regulations 2005

*Wedi'u gwneud* 5 Gorffennaf 2005

*Made* 5 July 2005

*Yn dod i rym* 30 Rhagfyr 2005

*Coming into force* 30 December 2005

TREFN Y RHEOLIADAU

ARRANGEMENT OF REGULATIONS

RHAN 1

PART 1

CYFFREDINOL

GENERAL

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso.
2. Dehongli.
3. Dyfarniadau o gymhwyster.

1. Title, commencement and application.
2. Interpretation.
3. Qualifying determinations.

RHAN 2

PART 2

PANELAU

PANELS

4. Cyfansoddiad a swyddogaethau panelau.
5. Aelodaeth panelau.
6. Cadeirydd ac is-gadeirydd.
7. Gweinyddu panelau.
8. Treuliau aelodau panelau.
9. Cyfarfodydd panelau.
10. Cofnodion.

4. Constitution and functions of panels.
5. Membership of panels.
6. Chair and vice chair.
7. Administration of panels.
8. Expenses of panel members.
9. Meetings of panels.
10. Records.

RHAN 3  
GWEITHDREFN

11. Cais gan ddarpar fabwysiadwr am i ddyfarniad o gymhwyster gael ei adolygu.
12. Cydnabod cais.
13. Penodi panel a hysbysu ynghylch adolygiad.
14. Argymhelliad panel.
15. Gorchymyn i dalu costau.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 9(1), (2) a (4) a 12(1) i (3) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(1), ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol, drwy hyn yn gwneud y rheoliadau canlynol:-

RHAN 1  
CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2005, a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn achosion pan fydd panel mabwysiadu, ar neu ar ôl 1 Ebrill 2006, yn ystyried am y tro cyntaf neu'n adolygu pa mor addas yw'r darpar fabwysiadwr i fod yn rhiant mabwysiadol.

**Dehongli**

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "asiantaeth fabwysiadu" ("*adoption agency*") yw sefydliad gwirfoddol priodol neu awdurdod lleol;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "darpar fabwysiadwr" ("*prospective adopter*") yw person sy'n bwriadu mabwysiadu plentyn;

---

(1) 2002 p.38. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan y Gweinidog priodol, a ddiffinnir yn adran 144 o'r Ddeddf o ran Lloegr, fel yr Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac o ran Cymru a Lloegr, fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu ar y cyd.

PART 3  
PROCEDURE

11. Application by prospective adopter for review of qualifying determination.
12. Acknowledgement of application.
13. Appointment of panel and notification of review.
14. Recommendation of panel.
15. Order for payment of costs.

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 9(1), (2) and (4) and 12(1) to (3) of the Adoption and Children Act 2002(1), having consulted such persons as it considers appropriate, hereby makes the following regulations:-

PART 1  
GENERAL

**Title, commencement and application**

1.-(1) The title of these Regulations is the Independent Review of Determinations (Adoption) (Wales) Regulations 2005 and come into force on 30 December 2005.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations will apply to cases where the prospective adopter's suitability to be an adoptive parent is considered by an adoption panel for the first time or is being reviewed by an adoption panel on or after 1 April 2006 only.

**Interpretation**

2.-(1) In these Regulations -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Adoption and Children Act 2002;

"the 2005 Regulations" ("*Rheoliadau 2005*") means the Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005(2);

"adoption agency" ("*asiantaeth fabwysiadu*") means an appropriate voluntary organisation or local authority;

---

(1) Minister, who is defined in section 144 of the Act in relation to England, as the Secretary of State, in relation to Wales as the National Assembly for Wales and in relation to England and Wales, as the Secretary of State and the National Assembly for Wales acting jointly.

(2) S.I 2005/1313 (W.95).

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n wyl y banc o fewn yr ystyr yn Neddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr "panel mabwysiadu" ("*adoption panel*") yw panel a sefydlwyd yn unol â rheoliad 3 o Reoliadau 2005;

ystyr "Rheoliadau 2005" ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(2).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae cyfeiriad-

- (a) at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn sy'n dwyn y rhif hwnnw;
- (b) mewn rheoliad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw sy'n dwyn y rhif hwnnw;
- (c) mewn paragraff at is-baragraff â llythyren neu rif yn gyfeiriad at yr is-baragraff yn y paragraff hwnnw sy'n dwyn y llythyren honno neu'r rhif hwnnw.

### Dyfarniadau o gymhwyster

3. At ddibenion adran 12(2) o'r Ddeddf, dyfarniad o gymhwyster yw dyfarniad sydd wedi'i wneud gan asiantaeth fabwysiadu yn unol â Rheoliadau 2005 fel a ganlyn:

- (a) pan nad yw'r asiantaeth o dan reoliad 28(4) o Reoliadau 2005 yn bwriadu cymeradwyo darpar fabwysiadwr fel un sy'n addas i fod yn rhiant mabwysiadol;
- (b) pan fydd yr asiantaeth yn ystyried nad yw darpar fabwysiadwr bellach yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol yn dilyn adolygiad o dan reoliad 30 o Reoliadau 2005.

## RHAN 2 PANELAU

### Cyfansoddiad a swyddogaethau panelau

4.-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, ar gais darpar fabwysiadwr, ffurfio panel at ddiben adolygu dyfarniad o gymhwyster mewn perthynas â'r darpar fabwysiadwr.

---

(1) 1971 p.80.

(2) O.S. 2005/1313 (Cy.95).

"adoption panel" ("*panel mabwysiadu*") means a panel established in accordance with regulation 3 of the 2005 Regulations;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"prospective adopter" ("*darpar fabwysiadwr*") means a person who proposes to adopt a child;

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means any day other than a Saturday, a Sunday, Christmas Day, Good Friday or a day which is a bank holiday within the meaning of the Banking and Financial Dealings Act 1971(1).

(2) In these Regulations, unless the context requires otherwise, a reference -

- (a) to a numbered regulation is to the regulation in these Regulations bearing that number;
- (b) in a regulation to a numbered paragraph is to the paragraph in that regulation bearing that number;
- (c) in a paragraph to a lettered or numbered sub-paragraph is to the sub-paragraph in that paragraph bearing that letter or number.

### Qualifying determinations

3. For the purposes of section 12(2) of the Act, a qualifying determination is a determination that has been made by an adoption agency in accordance with the 2005 Regulations as follows:

- (a) where under regulation 28(4) of the 2005 Regulations the agency do not propose to approve a prospective adopter as suitable to be an adoptive parent;
- (b) where the agency consider that a prospective adopter is no longer suitable to be an adoptive parent following a review under regulation 30 of the 2005 Regulations.

## PART 2 PANELS

### Constitution and functions of panels

4.-(1) The National Assembly must, at the request of a prospective adopter, constitute a panel for the purpose of reviewing a qualifying determination in relation to the prospective adopter.

---

(1) 1971 c.80.

(2) Rhaid i aelodau'r panel gael eu dewis oddi ar restr o bersonau sydd wedi'u penodi'n aelodau panelau asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru ac sy'n gwasanaethu fel aelodau panelau asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru (y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn fel "y rhestr ganolog") ac y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried eu bod yn addas yn rhinwedd eu sgiliau, eu cymwysterau neu eu profiad i fod yn aelodau panel. Cedwir y rhestr gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Rhaid i banel a sefydlir o dan baragraff (1) -

- (a) yn adolygu'r dyfarniad o gymhwyster; a
- (b) yn gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y dyfarniad o gymhwyster ynghylch pa un a yw darpar fabwysiadwr yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol ai peidio.

### **Aelodaeth panelau**

5.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi dim mwy na phum person yn aelodau o'r panel, a rhaid iddynt gynnwys (lle y bo'n rhesymol ymarferol):

- (a) rhiant mabwysiadol; a
- (b) person wedi'i fabwysiadu sydd wedi cyrraedd 18 oed.

(2) Rhaid i'r panel gael cyngor gan:

- (a) gweithiwr cymdeithasol, o fewn yr ystyr sydd iddo yn Rhan IV o Ddeddf Safonau Gofal 2000(1), y mae ganddo o leiaf 5 mlynedd o brofiad ôl-gymhwyso mewn gwaith mabwysiadu a lleoli mewn teuluoedd;
- (b) ymarferydd meddygol cofrestredig ag arbenigedd mewn gwaith mabwysiadu; ac
- (c) pan fo'r panel yn ystyried hynny'n briodol, cynghorydd cyfreithiol â gwybodaeth o ddeddfwriaeth fabwysiadu ac arbenigedd ynddi.

(3) Ni fydd unrhyw berson yn cael ei benodi naill ai'n aelod o banel neu'n gynghorydd i banel a gaiff ei gynnull i adolygu dyfarniad o gymhwyster a wnaed gan asiantaeth fabwysiadu a fu'n cyflogi'r person hwnnw ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd cyn y dyddiad pryd yr atgyfeirir yr achos at y panel.

(4) Yn y rheoliad hwn mae cyfeiriad at fod wedi cael ei gyflogi yn cynnwys cael ei gyflogi gan asiantaeth fabwysiadu pa un ai am dâl ai peidio a pha un ai o dan gontract gwasanaethau neu gontract am wasanaethau neu fel gwirfoddolwr.

(2) The members of the panel must be drawn from a list of persons appointed and serving as members of adoption agency panels in Wales (in these Regulations referred to as "the central list"), kept by the National Assembly who are considered by the National Assembly to be suitable, by virtue of their skills, qualifications or experience to be members of a panel.

(3) A panel established under paragraph (1) must -

- (a) review the qualifying determination; and
- (b) make a recommendation to the adoption agency which made the qualifying determination as to whether or not a prospective adopter is suitable to be an adoptive parent.

### **Membership of panels**

5.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3), the National Assembly must appoint no more than five persons as members of the panel, who must (where reasonably practicable) include:

- (a) an adoptive parent; and
- (b) an adopted person who has attained the age of 18 years.

(2) The panel must be advised by:

- (a) a social worker within the meaning of Part IV of the Care Standards Act 2000(1) and has at least 5 years post qualifying experience in adoption and family placement work;
- (b) a registered medical practitioner with expertise in adoption work; and
- (c) where the panel considers it appropriate, a legal advisor with knowledge and expertise in adoption legislation.

(3) No person will be appointed, either as a member or an advisor, to a panel which is convened to review a qualifying determination made by an adoption agency by which he or she was employed at any time in the two years before the date on which the case is referred to the panel.

(4) In this regulation reference to having been employed includes being employed by an adoption agency whether or not for payment and whether under a contract of services or a contract for services or as a volunteer.

(1) 2000 p.14. Yn rhinwedd adran 55(2)(a) a (4) o Ddeddf Safonau Gofal 2000, person sy'n ymgymryd â gwaith cymdeithasol y mae ei angen mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau iechyd, addysg neu wasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan unrhyw berson yw gweithiwr cymdeithasol at ddibenion Rhan IV o'r Ddeddf honno.

(1) 2000 c.14. By virtue of section 55(2)(a) and (4) of the Care Standards Act 2000, a social worker for the purposes of Part IV of that Act, is a person who engages in social work that is required in connection with any health, education or social services provided by any person.

### **Cadeirydd ac is-gadeirydd**

6. Wrth ffurfio panel yn unol â rheoliad 4, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penodi:

- (a) i gadeirio'r panel, berson -
  - (i) ag arbenigedd mewn gwaith mabwysiadu; a
  - (ii) â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol ar gyfer cadeirio panel; a
- (b) un o aelodau'r panel yn is-gadeirydd i weithredu fel cadeirydd os bydd y person a benodwyd i gadeirio'r panel yn absennol neu os yw ei swydd yn wag.

### **Gweinyddu panelau**

7. Gweinyddir y panel gan y Cynulliad Cenedlaethol, a fydd yn gwneud darpariaeth addas ar gyfer gwasanaethau clericio ar gyfer y panel.

### **Treuliau aelodau panelau**

8. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, yn ôl ei ddisgresiwn, dalu i unrhyw aelod o banel unrhyw ffioedd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu hystyried yn rhesymol.

### **Cyfarfodydd panelau**

9. Rhaid i banel beidio â chynnal unrhyw fusnes onid oes pedwar o'i aelodau o leiaf gan gynnwys y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn cyfarfod fel panel.

### **Cofnodion**

10. Rhaid i banel -
- (a) cadw cofnod ysgrifenedig o'i adolygiadau o ddyfarniadau o gymhwyster, gan gynnwys y rhesymau dros ei argymhellion; a
  - (b) sicrhau bod cofnodion o'r fath yn cael eu cadw o dan amodau sy'n briodol o ddiogel.

## **RHAN 3 GWEITHDREFN**

### **Cais gan ddarpar fabwysiadwr am i ddyfarniad o gymhwyster gael ei adolygu**

11.-(1) Caiff darpar fabwysiadwr, o fewn 20 o ddiwrnodau gwaith i'r dyddiad y bydd yr asiantaeth fabwysiadu'n anfon hysbysiad ynghylch y dyfarniad o gymhwyster mewn cysylltiad ag ef, wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am i banel gael ei ffurfio i adolygu'r dyfarniad hwnnw'n unol â rheoliad 4.

### **Chair and vice chair**

6. When constituting a panel in accordance with regulation 4, the National Assembly will appoint:

- (a) to chair the panel a person who has -
  - (i) expertise in adoption work; and
  - (ii) the skills and experience necessary for chairing a panel; and
- (b) one of the members of the panel as vice chair to act as chair if the person appointed to chair the panel is absent or his or her office is vacant.

### **Administration of Panels**

7. The panel will be administered by the National Assembly, who will make suitable provision for clerking services to the panel.

### **Expenses of panel members**

8. The National Assembly may at its discretion pay to any member of a panel such fees as the National Assembly considers to be reasonable.

### **Meetings of panels**

9. A panel must not conduct any business unless at least four of its members including the chair or vice chair meet as a panel.

### **Records**

10. A panel must -
- (a) keep a written record of its reviews of qualifying determinations, including the reasons for its recommendations; and
  - (b) ensure that such records are kept in conditions of appropriate security.

## **PART 3 PROCEDURE**

### **Application by prospective adopter for review of qualifying determination**

11.-(1) A prospective adopter may within 20 working days beginning with the date on which a notification was sent by the adoption agency of the qualifying determination in relation to him or her, make a request to the National Assembly for a panel to be constituted to review that determination in accordance with regulation 4.

- (2) Rhaid i gais o dan baragraff (1)-
- (a) bod yn ysgrifenedig; a
  - (b) datgan y rheswm dros y cais.

### **Cydnabod cais**

**12.** Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gydnabod yn ysgrifenedig o fewn 5 niwrnod gwaith bod unrhyw gais a wnaed yn unol â rheoliad 11 wedi dod i law.

### **Penodi panel a hysbysu ynghylch adolygiad**

**13.**-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu o fewn 25 o ddiwrnodau gwaith fod unrhyw gais a wnaed yn unol â rheoliad 11 wedi dod i law.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, o fewn 25 o ddiwrnodau gwaith ar ôl i unrhyw gais a wnaed yn unol â rheoliad 11 ddod i law, benodi panel a phennu dyddiad i'r panel gyfarfod i adolygu'r dyfarniad o gymhwyster hwnnw.

(3) Ni fydd y dyddiad a bennir ar gyfer yr adolygiad yn ddiweddarach na 3 mis ar ôl y dyddiad y caiff y dyfarniad ei atgyfeirio.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu a'r darpar fabwysiadwr o'r dyddiad, yr amser a'r lle y cynhelir yr adolygiad a hynny ddim llai na 5 niwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennir ar gyfer yr adolygiad.

(5) Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod y panel yn derbyn yr holl bapurau perthnasol sy'n ymwneud â'r adolygiad a hynny ddim llai na 5 niwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennir ar gyfer yr adolygiad.

### **Argymhelliad panel**

**14.**-(1) Rhaid mai argymhelliad y mwyafrif fydd argymhelliad y panel.

(2) Caiff yr argymhelliad ei wneud a'i gyhoeddi ar ddiwedd yr adolygiad neu ei gadw wedi'i neilltuo.

(3) Rhaid cofnodi'r argymhelliad a'r rhesymau drosto yn ddi-oed a hynny mewn dogfen y bydd y cadeirydd yn ei llofnodi ac yn nodi'r dyddiad arni.

(4) Rhaid ymdrin â'r argymhelliad fel pe bai wedi'i wneud ar y dyddiad y llofnododd y cadeirydd y ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (3).

(5) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, a hynny'n ddi-oed ac yn sicr heb fod yn hwyrach na 10 niwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y gwnaed yr argymhelliad, anfon copi o'r argymhelliad at -

- (a) yr asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y dyfarniad o gymhwyster; a
- (b) y darpar fabwysiadwr.

- (2) A request under paragraph (1) must -
- (a) be in writing; and
  - (b) state the reason for the request.

### **Acknowledgement of application**

**12.** The National Assembly must acknowledge in writing within 5 working days, receipt of any request made in accordance with regulation 11.

### **Appointment of panel and notification of review**

**13.**-(1) The National Assembly must notify the adoption agency within 5 working days of receipt of any request made in accordance with regulation 11.

(2) The National Assembly must, within 25 working days of receipt of a request which has been made in accordance with regulation 11 appoint a panel and set a date for the panel to meet and review that qualifying determination.

(3) The date fixed for the review will be no later than 3 months after the date that the determination is referred.

(4) The National Assembly must inform the adoption agency and the prospective adopter of the date, time and place for the review no less than 5 working days before the date fixed for the review.

(5) The National Assembly will ensure that the panel receive all relevant papers relating to the review no less than 5 working days before the date fixed for the review.

### **Recommendation of panel**

**14.**-(1) The panel's recommendation must be that of the majority.

(2) The recommendation may be made and announced at the end of the review or reserved.

(3) The recommendation and the reasons for it must be recorded without delay in a document signed and dated by the chair.

(4) The recommendation must be treated as having been made on the date on which the chair signed the document referred to in paragraph (3).

(5) The National Assembly must without delay and in any event no later than 10 working days after the date on which the recommendation is made send a copy of the recommendation to -

- (a) the adoption agency which made the qualifying determination; and
- (b) the prospective adopter.

## Gorchymyn i dalu costau

15. Caiff y panel wneud gorchymyn yn mynnu bod yr asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y dyfarniad o gymhwyster a adolygwyd yn talu'r costau hynny y mae'r panel mabwysiadu yn ystyried eu bod yn rhesymol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

5 Gorffennaf 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

---

(1) 1998. p.38.

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£3.00**

W117/7/05

ON

## Order for payment of costs

15. The panel may make an order for the payment by the adoption agency by which the qualifying determination reviewed was made of such costs as the adoption panel considers reasonable.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

5 July 2005

The Presiding Officer of the National Assembly


---

(1) 1998 c. 38.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091170-9



9 780110 911700